



Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 14^{eg} o Fawrth 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Geraint Price

Cof 299 / Maw / 18 Datganiadau o Fuddiant Dim.

Cof 300/ Maw / 18 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/36876 Newid y defnydd a wneir o fflat ar y llofft, sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel storfa a llety swyddfa 'orlanw' yn achlysurol, o ddefnydd preswyl i ddefnydd busnes, yn Fflat 58, Stryd Rhosmaen.

Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/36919 Amrywiad o amod 2 o ganiatâd cynllunio E/35813 (2 olau to ychwanegol) ac estyniad un llawr newydd i ochr Ddeheuol annedd yn 9, Heol Caerfyrddin.

Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/36926 Allanol: Tynnu'r arwydd brand presennol i lawr a chael gwared ar y peiriant ATM

Mewnol: Mynd ati'n ofalus, trwy'r adeilad, i waredu'r darnau gosod a gosodiadau, dodrefn ac offer gwreiddiol, sy'n ymwneud â gweithrediad y gangen yn 54, Stryd Rhosmaen.

E/36927 Adeilad rhestredig. Y newidiadau a restrwyd uchod.

Sylw: Dim gwrthwynebiad. Siom yw bod y ceisydd yn sôn am beiriant ATM, pan nad oes cyfleuster o'r fath wedi bodoli yn y banc hwn erioed. Mae'n bwysig bod yr Adran Cynllunio yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol, gan gynnwys yr addurniadau mewnol.

Cof 301 / Maw / 18 Doedd dim Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

Cof 302 / Maw / 18 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1. Graham Noakes, yn ymateb i ymholiad y Cyngor am y datblygiadau yng nghanol y dref, yn datgan nad ydynt o anghenraid yn galw am leoedd parcio ar y safle. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Adran Cynllunio CSG, i ofyn am ateb yn rhoi gwybod i'r Cyngor Tref am yr union ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau y mae'r Swyddogion Cynllunio'n cyfeirio atynt wrth

wneud penderfyniad p'un ai bod yn rhaid darparu lleoedd parcio ar y safle yn y lleoliad arbennig hwn. Mae'r Cyngor o'r farn, os nad yw lleoedd parcio ar y safle yn ofynnol, yna mae'n cynyddu'r pwysau ar feysydd parcio cyhoeddus a gall arwain at gerbydau'n cael eu parcio ar balmentydd.

2. Ceri Davies, Swyddog Cynllunio CSG, mewn ymateb i ymholiad y Clerc p'un ai bod adroddiad gan y Swyddog Cadwraeth wedi bod yn ofyniad ar gyfer cais cynllunio E/36422, yn datgan nad oedd adroddiad o'r fath yn ofyniad.
3. Ceri Davies, Swyddog Cynllunio CSG, yn cadarnhau, o'r lluniadau a gyflwynwyd iddo ar y cynlluniau i ddatblygu ardal chwarae i blant ym Mharc Le Conquet, y byddent yn cael eu caniatáu yn unol â dosbarth A, rhan 12, atodlen 2 o'r gorchymyn cynllunio Tref a Sir. Gofynnodd am i luniadau wrth raddfa i gael eu cyflwyno fel ffurfioldeb.
4. Emily Hughes, Rheolwr Asedau CSG, yn cadarnhau caniatâd i ddatblygu'r ardal chwarae i blant ym Mharc Le Conquet.

Cof 303 / Maw / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Adroddodd Mr Davies ei fod yn dymuno trafod materion yn ymwneud â chost gwresogi Neuadd y Sir. Byddai Is-grŵp Neuadd y Sir yn cwrdd ar nos Fawrth yr 20^{fed} o Fawrth.

Gwahoddwyd Mr Davies i gwrdd â David Rice mewn perthynas â'r coed ym Mharc Penlan. Adroddodd Mr Davies bod wal derfyn eiddo preifat sy'n ffinio â Pharc Le Conquet mewn cyflwr gwael. Rhoddwyd caniatâd i Mr Davies drefnu i'r ardal gael ei gwahanu oddi wrth y Parc â ffens.

Cof 304 / Maw / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phrifyrdd

1.Y Cyng. Edward Thomas, copi o lythyr a anfonwyd i Ken Skates, Gweinidog LICC, mewn perthynas â goleuadau stryd ar Stryd y Bont nad oedd wedi cael eu newid pan oeddent yn ddiffygiol.

Cof 305 / Maw /18 Gohebiaeth

1.Sophie Rudall-Jones, Swyddog Pobl Ifanc Gweithgar CSG, mewn perthynas â gweithgareddau i blant yn Llandeilo yn ystod gwyliau'r haf. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â Sophie am fwy o fanylion.

2. Jane Davies, Clerc Manordeilo a Salem, yn canmol Cylchlythyr y Cyngor Tref. Roedd y Clerc wedi ateb gan roi manylion yr holl waith sydd ynghlwm.

Cof 306 / Maw / 18 Gardd Heol Cilgant

Cynigodd y Cyng. Christopher Parish bod y Clerc yn cysylltu â Thrawsnewid Tywi Llandeilo. Roedd pawb o blaid. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ymddiheuro wrth Helen Adam am y dryswch a fu am beidio â mynychu cyfarfod blaenorol.

Cof 307 / Maw / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58yh.